Barn am y Theatr Fforwm

"Y Theatr Fforwm yw un o'r pethau gorau i mi ei wneud erioed. Pan oeddwn am ei wneud gyntaf, roedd gen i ofn mawr wrth sefyll o flaen cynulleidfa fyw, ond wedi i ni orffen y perfformiad yn Barcelona roeddwn wedi cael cymaint o bleser fel bod y wefr a gefais ar ei ôl yn anhygoel.

Y peth a oedd yn rhoi'r mwyaf o bleser oedd pan fyddai aelodau o'r gynulleidfa yn dod i fyny ac yn ffeirio lle â'r prif gymeriad. Roedd hynny'n wych. Hefyd, dim ond ychydig o ddiwrnodau y byddem yn eu cael i ymarfer ond pan ddaeth popeth at ei gilydd roedd yn anhygoel.

Pan ges i gyfle i'w wneud eto, wnes i ddim petruso. Rwy'n mwynhau pob munud ac rwy'n credu bod y Theatr Fforwm wedi fy newid yn llwyr fel person ac rwy'n ddiolchgar am hynny."
Darren

"Fy enw yw Anthony; rwy'n 21 mlwydd oed ac yn byw ar hyn o bryd yn llety â chymorth GISDA ym Mlaenau Ffestiniog.

Roeddwn wrth fy modd pan glywais y gallwn i wneud gwaith theatr. Rwy'n hoffi actio ac roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yng ngweithdy'r theatr fforwm. Pan ddywedodd Osian ar ddydd Llun y byddai'n cael pob un ohonom i wneud perfformiad erbyn diwedd yr wythnos, doeddwn i ddim yn siŵr, ond yn union fel y dywedodd, gwnaethom roi perfformiad da erbyn dydd Gwener.

Roedd y perfformiad cyntaf o flaen 12 o bobl. Ers hynny, rydym wedi perfformio bedair gwaith, o flaen mwy na 300 o bobl, ac wedi cael adborth da.

Rydym yn mynd i Lundain y mis nesaf a bydd hwnnw'n brofiad gwych, gan mai hwn yw'r tro cyntaf i mi fynd i Lundain.

Mae'r theatr fforwm wedi dangos i mi fy mod yn gallu bod yn hyderus o flaen torf fawr. Mae wedi rhoi digon o hyder i mi wneud cais am waith fel troellwr disgiau hefyd."
Anthony Lee Williams

"Fy enw yw Ben ac rwy'n 17 flwydd oed. Rwy'n byw yn lle GISDA ym Mlaenau Ffestiniog. Rwy'n cymryd rhan yn y theatr fforwm ar hyn o bryd ac rwyf wrth fy modd yn gwneud hynny am fod y profiad yn un rhyfeddol!!!

Yn y dyfodol hoffwn fod yn actor amser llawn yn perfformio mewn theatr fforwm."
Ben

"Fy enw yw Ben ac rwy'n 24 blwydd oed.

Gan fy mod yn ddi-waith ym Manceinion, dilynais fy nheulu yn 2008 a symud i Gaernarfon. Wnes i ddim llwyddo i ddod o hyd i waith a chollais fy nghartref.

Yn ffodus, gwnaeth GISDA roi lle i mi mewn hostel yng Nghaernarfon. Drwy GISDA des i wybod am y theatr fforwm. Doedd gen i ddim diddordeb ar y dechrau ond es i'r gweithdy ac roeddwn am ddysgu mwy amdani wedyn.

Ar ôl y perfformiad cyntaf roeddwn yn teimlo'n falch ofnadwy ohonof fy hun a'r grŵp yr oeddwn gydag ef. Byddaf yn bachu ar bob cyfle rwan a byddwn wrth fy modd yn gwneud mwy o waith theatr a pherffeithio fy sgiliau ar lwyfan."
Benjamin

"Fy enw yw Kelsey ac rwy'n 17 flwydd oed. Rwyf wedi bod gyda GISDA ers Mehefin 2010.

Dechreuais gymryd rhan yn y theatr fforwm ym mis Tachwedd 2010; clywais fod £5.00 o arian cinio felly es i'r gweithdy.

Ar y dechrau roeddwn yn meddwl ei fod yn siêp, yn blentynnaidd ac yn chwithig! Pan welais bawb arall yn cymryd rhan, teimlais yn fwy hyderus. Mae pawb yn y grŵp yn dod ymlaen yn dda ac rydym yn deall ein gilydd.

Pan fyddaf yn perfformio, byddaf yn anghofio pob dim am fy holl bryderon, ac yn teimlo'n hapus wrth ei wneud. Mae'n dda dysgu pobl eraill – mae hefyd wedi dysgu i mi beth ddylwn ei wneud mewn sefyllfaoedd anodd.

Hoffwn gario ymlaen yn gwneud theatr fforwm ac efallai ryw ddiwrnod y gallwn i gael fy nghyflogi i berfformio. Byddwn hefyd yn hoffi bod yn jociwr yn y theatr!"
Kelsey

"Fy enw yw Emma; rwy'n 24 blwydd oed ac yn byw ar hyn o bryd ym Mlaenau Ffestiniog lle rwyf wedi cael fy nghartrefu mewn fflat gan GISDA.

Rwyf wedi bod gyda GISDA ers Mawrth 2010 wedi i mi fynd drwy chwalfa yn fy mherthynas â'm hen gariad. Drwy GISDA dechreuais gymryd rhan yn y theatr fforwm.

Pan ddechreuais gymryd rhan yn y theatr fforwm roeddwn yn ofnus ac yn nerfus ac yn meddwl nad oedd ffordd yn y byd y byddwn yn gallu ei wneud. Roeddwn wedi cynhyrfu cymaint fel y gwnes i ddechrau crio, ac wedyn gwnaeth Osian siarad â mi a rhoi ychydig o hyder i mi i gario ymlaen â'r theatr fforwm.

Roedd y perfformiad cyntaf a wnes i o flaen gweithwyr y cyngor. Roeddwn yn ofnadwy o nerfus ond yn falch o fod wedi cymryd rhan – roedd hefyd wedi dechrau rhoi hyder yn ôl i mi.

Pan glywais fod pump ohonom yn mynd i Barcelona roeddwn wrth fy modd. Y tro cyntaf i mi fynd i wlad dramor. I mi, roedd yn gyfle i gwrdd â phobl newydd a pherfformio o flaen cynulleidfa ehangach. Roedd bod o flaen cymaint o bobl yn codi ychydig o ofn arnaf ar y dechrau ond wedi i mi fynd dan groen fy nghymeriad ar y llwyfan roedd yn deimlad da.

Roedd yn dda gweld yr ymateb gan y gynulleidfa. Roedd rhai ohonynt yn crio ar ôl gweld ein perfformiad – roedd yn emosiynol iawn. Roedd yn biti bod rhaid i ni fynd adref.

Roeddwn yn ddigon ffodus i gael gwahoddiad wedyn i gymryd rhan mewn theatr fforwm, bron blwyddyn yn ddiweddarach. Rwyf yn gobeithio gwneud gwaith theatr fforwm eto yn y dyfodol; mae'n rhoi hwb i hyder rhywun ac yn ffordd wych i gwrdd â phobl newydd."
Emma